Bwrdd Cymwysterau Cymru

QWB21.2 – Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2019

.

Yn bresennol:
Ann Evans (Cadeirydd), Philip Blaker, Isabel Nisbet, Angela Maguire-Lewis, Ellen Donovan, David Jones, Caroline Burt, Robert Lloyd Griffiths, Claire Morgan, Arun Midha,

Hefyd yn bresennol:
Jo Richards (JR), Kate Crabtree (KC), Alison Standfast (AS), Joanne Nicholas (JN), Kerry Price (KP) – eitem 6-7, Kate Welsher (KW) ar gyfer eitem 7-8, Oliver Stacey (OS) – eitem 5, Rachel Heath-Davies (RH-D) – eitem 10, Rebecca Olney (RO) – Llywodraeth Cymru.

Ymddiheuriadau:
Dim

1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Ddiddordeb, Papurau i'w Nodi

1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1.2. Ceisiwyd datganiadau o fuddiant. Nododd ALM ei rôl newydd fel Cyfarwyddwr Ansawdd ar gyfer Hyfforddiant Gydol Oes.

1.3. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr aelodau unrhyw faterion yr hoffent eu trafod o'r papurau gwybodaeth. Cytunwyd i drafod y nodyn briffio ar gyfathrebu o fewn y prif agenda (eitem 4).

2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2019 a'r Materion sy'n Codi

2.1. Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2019 eu cadarnhau fel cofnod cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar fân newidiadau. Byddai'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru ar ôl eu cyfieithu.

2.2. Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu yn y cofnodion, yr oeddent i gyd wedi'u cwblhau.

Materion sy'n Codi

2.3. Hysbysodd y Cadeirydd y Bwrdd y byddai'r Cod Ymarfer yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ystod cyfarfod mis Mai ac y byddai'r adroddiad cynnydd ar Gydraddoldebau yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill/Mai.

2.4. Gofynnodd y Bwrdd am y polisi Amodau Trosglwyddo. Cadarnhaodd PB y byddai'n cael ei gwmpasu yn adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol.

2.5. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am waith y Grŵp Cynghori ar Ymchwil. Dywedwyd wrth y Bwrdd fod y Grŵp wedi rhoi cyngor ar y cynllun

ymchwilio ar gyfer 2019-20. Gofynnwyd i'r grŵp awgrymu meysydd ymchwil posibl ac roedd yr awgrymiadau'n cynnwys dwyieithrwydd ac ieithyddiaeth, a chymaroldeb a safonau. Aeth y trafodaethau i'r afael â materion yn ymwneud â chymwysterau cyffredinol a chymwysterau galwedigaethol, ac roeddent hefyd yn cyfeirio rhywfaint at y profion cenedlaethol, gan nodi nad yw'r profion hyn wedi'u rheoleiddio.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion gan nodi mân addasiadau.
ii. Nododd y Bwrdd fod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.

3. Adroddiad/Diweddariad gan y Cadeirydd

3.1. Roedd y Cadeirydd wedi llunio adroddiad ar ei gweithgareddau diweddar er gwybodaeth i'r Bwrdd. Roedd ei gweithgareddau diweddar yn cynnwys cyfarfod â Suzy Davies, Llefarydd Addysg y Blaid Geidwadol ac aelod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (CYPE), mynychu'r Fforwm Cyrff Cyhoeddus, mynychu Cynhadledd Penaethiaid Uwchradd Llywodraeth Cymru, ac ymateb i'r llythyr gan Tonia Antoniazzi AS mewn perthynas ag Ieithoedd Tramor Modern.

3.2. Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf am y broses recriwtio ar gyfer y Bwrdd a'r Cadeirydd. Roedd y cyfweliadau ar gyfer aelodau newydd o'r Bwrdd wedi cael eu cwblhau ac roedd dau ymgeisydd wedi cael eu hargymell i'r Gweinidog i'w cymeradwyo. Roedd y broses ymgeisio ar gyfer rôl y Cadeirydd wedi dod i ben, a byddai'r rhestr fer yn cael ei llunio ar 29 Mawrth.

3.3. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Cytundeb Fframwaith â Llywodraeth Cymru wedi'i lofnodi.

3.4. Hysbysodd y Cadeirydd y Bwrdd y cynhaliwyd pedwar ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru, ac atgoffodd y Bwrdd fod ymatebion i ymgyngoriadau yr ystyrir eu bod o bwysigrwydd cenedlaethol yn fater a gedwir yn ôl yn benodol i'r Bwrdd. Penderfynwyd bod angen i'r Bwrdd gymeradwyo un o'r ymgyngoriadau, sef Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol, a gwnaed hyn y tu allan i'r Pwyllgor.

3.5. Nododd y Cadeirydd fod Carter Corson wedi'i benodi i ymgymryd â'r gwaith o adolygu perfformiad y bwrdd allanol ac amlinellodd y broses. Anogodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd i gymryd rhan yn llawn. Gofynnodd y Cadeirydd am awgrymiadau ar gyfer diwrnod datblygu'r Bwrdd ym mis Mai, a chytunwyd y byddai'r Pwyllgor Gweithredol yn derbyn yr argymhellion hyn ac yn dewis pwnc neu ddau i'w trafod. Byddai'r awgrymiadau eraill yn parhau i fod yn opsiynau ar gyfer diwrnodau datblygu yn y dyfodol.

3.6. Gofynnodd y Cadeirydd i ALM roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sesiwn Brexit a gynhaliwyd ar gyfer Cyfarwyddwyr Anweithredol. Cafodd y Bwrdd wybodaeth am yr agweddau allweddol ar y sesiwn a thrafododd y risg o ran methu â chael gafael

ar ddata a gedwir yn Ewrop yn achos sefyllfa 'dim cytundeb' a phe na fyddai unrhyw gytundeb mewn perthynas â diogelu data ar waith rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd. Daeth y Bwrdd i'r casgliad fod hon yn risg isel.

3.7. Diolchodd y Bwrdd i'r Cadeirydd am yr adroddiad a nododd y diweddariad.

JN i drefnu diwrnod datblygu'r Bwrdd gan ddefnyddio awgrymiadau'r Bwrdd.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Nododd y Bwrdd gynnwys cyffredinol diweddariad y Cadeirydd.

4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

4.1. Cyflwynodd Philip Blaker (PB) adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol gan nodi ei fod yn cwmpasu eitemau nad ydynt yn ymddangos rywle arall ar agenda'r Bwrdd.

4.2. *Prosiect Iechyd a Gofal Cymdeithasol* – Nododd PB fod y consortiwm yn gweithio'n dda i gyflawni ei ddangosyddion perfformiad allweddol ar y cyfan, ond roedd dau gymhwyster yn peri pryder ar y cam cymeradwyo oherwydd problemau o fewn y cyflwyniadau. Amlinellodd PB y cymorth a'r mesurau wrth gefn a fyddai'n cael eu cymryd. Nododd y Bwrdd ei bryder o ran yr oedi posibl cyn addysgu'r cymwysterau am y tro cyntaf a phwysleisiodd fod cyfathrebu yn bwysig. Gofynnodd y Bwrdd am ragor o wybodaeth am statws y ddau gymhwyster.

JN i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am statws cymeradwyaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol o hyn i gyfarfod nesaf y Bwrdd.

4.3. *Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig* – Nododd PB fod gofynion sylfaenol y cymwysterau yn cael eu datblygu. Roedd y broses gaffael ar gyfer y cymwysterau Sylfaen, Dilyniant a Phrentisiaethau newydd yn mynd rhagddi ac roedd disgwyl i'r cynigydd llwyddiannus gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf.

4.4. *Cosbau Ariannol* – Hysbysodd PB y Bwrdd y byddai'r rheoliadau Cosbau Ariannol yn cael eu cyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 2 Ebrill a phe byddent yn cael eu pasio, byddent yn dod i rym ar 12 Ebrill. Hysbysodd PB y Bwrdd fod Cymwysterau Cymru wedi bod wrthi'n llunio'r Polisi Cosbau Ariannol ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w gymeradwyo. Pwysleisiodd y Bwrdd bwysigrwydd sicrhau bod popeth ar waith cyn defnyddio'r pwerau am y tro cyntaf.

4.5. *Polisi Trosglwyddo Amodau* – Hysbysodd PB y Bwrdd y byddai'r Polisi yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Rheoleiddio ar 2 Mai, ac yna i'r Bwrdd ar 16 Mai. Cydnabu'r Bwrdd yr holl waith a wnaed er mwyn datblygu'r polisi hwn.

4.6. *Prif Swyddog Gweithredol CBAC yn ymddiswyddo* – Amlinellodd PB y trefniadau dros dro a oedd yn cael eu rhoi ar waith cyn i CBAC recriwtio Prif Swyddog Gweithredol arall, a hysbysodd y Bwrdd y byddai'r cyfrifoldebau'n cael eu rhannu

rhwng dau uwch aelod o'r staff. Nododd PB mai'r risg i Cymwysterau Cymru oedd amseru'r ymddiswyddiad a oedd yn arwain at gyfnod arholiadau'r haf. Gwnaeth y Bwrdd sylwadau ar nifer o sefyllfaoedd a allai godi yn ystod cyfres arholiadau'r haf gan gwestiynu sut y byddai CBAC yn eu rheoli. Rhoddodd PB sicrwydd i'r Bwrdd fod y pwyllgor gweithredol yn fodlon y byddai'r trefniadau dros dro yn lliniaru'r risg ac y byddai'n cael ei monitro'n agos.

4.7. *Profion Samplu Cenedlaethol* – Hysbysodd PB y Bwrdd fod sgyrsiau wedi'u cynnal â Llywodraeth Cymru i gefnogi syniadau cynnar am ddatblygu profion ar lefel genedlaethol er mwyn samplu cyrhaeddiad myfyrwyr. Nododd PB efallai y byddai Llywodraeth Cymru am gael cyngor technegol ffurfiol ac efallai y byddai am i Cymwysterau Cymru gymryd mwy o ran. Cynghorodd y Bwrdd y dylid ceisio cyngor cyfreithiol er mwyn ystyried a yw'r gwaith hwn o fewn ein pwerau.

4.8. *Llythyr Grant 2019-20* – Cadarnhaodd PB fod y llythyr Grant wedi dod i law ar y diwrnod hwnnw. Nododd PB ei fod yn cynnwys geiriad a oedd yn cydnabod y cyllid ychwanegol sydd ei angen er mwyn diwygio'r cwricwlwm, ond nododd y byddai Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu i Cymwysterau Cymru eto ynglŷn â'r mater hwn. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'n talu costau'r diffyg mewn pensiwn sy'n gysylltiedig â throsglwyddo tri chyflogai o CBAC i Cymwysterau Cymru. Roedd y grant hefyd yn cynnwys cyllid ychwanegol i gwmpasu'r cyfraniad pensiwn cyflogwr uwch sy'n ofynnol gan gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil.

4.9. *Y Safon Iechyd Corfforaethol* – Hysbysodd PB y Bwrdd fod y sefydliad wedi ennill lefel Efydd y Safon Iechyd Corfforaethol. Gwnaeth y Bwrdd longyfarch y sefydliad, yn enwedig yr aelodau hynny o'r staff a fu'n arwain y gwaith.

4.10. *Dogfen Briffio ar Gyfathrebu* – Cydnabu'r Bwrdd fod y ddogfen briffio ar gyfathrebu yn ddefnyddiol a gofynnodd i ystyriaeth gael ei rhoi i'w harddull pe bai'n cael ei chyhoeddi.

AS i gael cyngor cyfreithiol mewn perthynas â'r Profion Samplu Cenedlaethol, er mwyn pennu a yw o fewn pwerau Cymwysterau Cymru.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Nododd y Bwrdd adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol a diolchodd iddo am ei ddiweddariad.

5. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Cwricwlwm

5.1. Ymunodd Oliver Stacey (OS) â'r Bwrdd.

5.2. Rhoddodd OS drosolwg o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i gefnogi'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm. Hysbysodd OS y Bwrdd o'r amserlenni; y dull gweithredu i'w fabwysiadu gan Cymwysterau Cymru a'r bwriad i gynnal ymgynghoriad yn yr hydref. Hysbysodd OS y Bwrdd fod prosiect wedi'i sefydlu a chyfeiriodd at amrywiaeth o agweddau ar y Ddogfen Diffinio Prosiect. Gofynnodd y Bwrdd

gwestiynau mewn ymateb i'r cyflwyniad a gwnaeth nifer o arsylwadau a oedd yn cynnwys yr angen i fod yn ystyriol o'r newid yn yr amgylchedd, ystyried yr ysgolion hynny y tu allan i'r ysgolion arloesi nad ydynt wedi chwarae cymaint o ran, a llwyth gwaith athrawon.

5.3. Diolchodd y Bwrdd i OS am y cyflwyniad llawn gwybodaeth a nododd fod angen trafod y penderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud am gymwysterau, yn ystod cyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr 2020 fwy na thebyg.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Nododd y Bwrdd y cyflwyniad ar y cwricwlwm newydd.

6. Adroddiad ar y cynllun gweithredol ac adroddiad ariannol hyd at ddiwedd mis Chwefror 2019

Adroddiad ar y cynllun gweithredol

6.1. Cyflwynodd JN yr adroddiad yn crynhoi'r sefyllfa o ran y cynllun gweithredol. Ddiwedd mis Chwefror 2019 cafodd pedwar o'r pum blaenoriaeth weithredol eu graddio'n wyrdd a chafodd un flaenoriaeth weithredol ei graddio'n goch. Roedd pedwar is-flaenoriaeth nad oeddent yn wyrdd. Roedd is-flaenoriaeth 2.2 (Gweithredu ymrwymiadau sy'n deillio o'r adolygiad o'r sector Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant) wedi'i graddio'n goch. Roedd pwysigrwydd effaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn golygu bod y flaenoriaeth gyffredinol (OP2 - Cymwysterau Galwedigaethol) wedi graddio'n goch yn gyffredinol. Roedd is-flaenoriaeth 3.1 (Amodau Cydnabod Safonol), 3.3. (Ymgorffori a pharhau i adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau rheoleiddio) a 4.3 (Llywio gwaith blaengynllunio ar gyfer cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru) i gyd wedi'u graddio'n oren. Nid oedd unrhyw rai o'r graddau oren wedi effeithio ar y blaenoriaethau gweithredol yn gyffredinol.

6.2. Trafododd y Bwrdd yr is-flaenoriaethau a nododd na chafodd adroddiadau eu llunio arnynt yn flaenorol a'u bod yn debygol o aros yr un peth hyd at ddiwedd y flwyddyn adrodd.

6.3. Nododd y Bwrdd y llwyddiannau, y risgiau y tynnwyd sylw atynt, a'r goblygiadau ariannol ac o ran adnoddau dynol yn yr adroddiad. Roedd y Pwyllgor Adnoddau wedi ymchwilio'n drylwyr i faes ymchwil ac awgrymwyd y gallai'r bwrdd gael budd o gyflwyniad tebyg.

6.4. Nododd y Bwrdd yr adroddiad hyd at ddiwedd mis Chwefror 2019.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Adolygodd y Bwrdd yr adroddiad ar y cynllun gweithredol a nododd y cynnydd hyd at ddiwedd mis Chwefror 2019.

Adroddiad cyllid

6.5. Ymunodd Kerry Price (KP) â'r cyfarfod. Cyflwynodd KP yr adroddiad cyllid a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y sefyllfa ar 15 Mawrth 2019. Hysbysodd KP y Bwrdd fod y Pwyllgor Adnoddau wedi adolygu'r sefyllfa ariannol hyd at ddiwedd mis Chwefror 2019.

6.6. Rhoddodd KP wybod i'r Bwrdd mai'r gwariant ar 15 Mawrth 2019 oedd £7,019m a oedd yn cynnwys £176k o gronfeydd wrth gefn. Nododd KP mai'r rhagolwg alldro, yn seiliedig ar y ddealltwriaeth ddiweddaraf o ymrwymiadau presennol a gwariannau posibl, oedd £7.82m, ac y byddai £183k o'r swm hwnnw'n cael ei ariannu gan gronfeydd wrth gefn. Byddai hyn yn golygu tanwariant o tua £400k. Roedd y Bwrdd wedi nodi'n flaenorol ei fod yn rhagweld rhagolwg alldro rhwng £7.66m a £8.12m.

6.7. Dywedwyd wrth y Bwrdd fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y byddai'n talu costau'r diffyg mewn pensiwn sy'n gysylltiedig â throsglwyddo tri chyflogai o CBAC i Cymwysterau Cymru.

6.8. Trafododd y Bwrdd yr adroddiad ariannol a nododd ei gynnwys. Diolchodd y Bwrdd i KP am ei adroddiad.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Nododd y Bwrdd yr adolygiad o gyllideb ddiwedd mis Chwefror 2019.

7. Cynllun busnes 2019-20 (gan gynnwys blaenoriaethau gweithredol, staffio a'r gyllideb)

7.1. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer Cynllun Busnes 2019-20, gan gynnwys y blaenoriaethau gweithredol, dyrannu'r gyllideb a chynyddu nifer y swyddi cymeradwy. Ymunodd Kate Welsher (KW) â'r cyfarfod.

7.2. Rhoddodd JN drosolwg i'r Bwrdd o'r blaenoriaethau gweithredol arfaethedig a thynnodd sylw at y penawdau newydd. Rhoddodd KP drosolwg o ddyraniad arfaethedig y gyllideb a rhoddodd PB a KW drosolwg o'r cynnydd y gofynnwyd amdano o ran swyddi cymeradwy, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ad-drefnu sefydliadol. Esboniodd PB y rhesymeg dros y ddwy swydd. Nododd y Bwrdd, o ganlyniad i'r broses ffurfweddu, na fyddai neb yn cael ei benodi i swydd y Cyfarwyddwr Gweithredol pan fyddai Kate Crabtree yn ymddeol, ac y byddai'n adolygu hyn yn gyson. Nododd PB y byddai cymeradwyo adnoddau ychwanegol i gefnogi'r gwaith o ddiwygio'r cwricwlwm yn amodol ar gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a bod disgwyliad y byddai Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu i Cymwysterau Cymru yn fuan mewn perthynas â'r mater hwn.

7.3. Trafododd y Bwrdd y cynigion a chadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau y gwnaed gwaith craffu manwl ar y cynigion yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2019. Roedd y Bwrdd yn awyddus i sicrhau bod

ystyriaeth yn cael ei rhoi i effaith defnyddio a chyflawni'r cynllun gweithredu, yn enwedig mewn perthynas â bodloni amserlenni uchelgeisiol. Roedd y Bwrdd hefyd yn awyddus i sicrhau bod Cyfarwyddwyr Cyswllt yn cael digon o gymorth wrth sefydlu'r Gyfarwyddiaeth Polisi a Diwygio Cymwysterau a bod unrhyw fylchau o ran sgiliau yn cael eu nodi a'u cefnogi yn gyffredinol.

7.4. Cadarnhaodd PB unwaith eto y caiff y cynllun ei fonitro'n rheolaidd ac y cyflwynir adroddiadau arno i'r Bwrdd Rheoli a'r Bwrdd.

7.5. Cyflwynodd KP y Cynllun Cyllid Tymor Canolig a hysbysodd y Bwrdd ei fod wedi'i ddiweddaru yn seiliedig ar ymrwymiadau cyllido cylchol. Cydnabu'r Bwrdd fod meysydd wedi'u tangyllido yn 20-21. Fodd bynnag, rhoddodd KP sicrwydd i'r Bwrdd fod y meysydd gwariant yn hyblyg o hyd. Cymeradwyodd y Bwrdd y cynllun, ar y dybiaeth bod y cynllun yn seiliedig ar y ffaith na fydd unrhyw newidiadau i swyddogaeth Cymwysterau Cymru a'r ddealltwriaeth bresennol o'r amgylchedd gwleidyddol.

7.6. Trafododd y Bwrdd y cynigion, ystyriodd y drafodaeth ac roedd yn hapus i gymeradwyo'r argymhellion. Argymhellodd y Bwrdd y dylif ceisio cyngor cyfreithiol ynghylch Adnoddau Dynol er mwyn ategu'r broses o benodi swyddi tymor penodol am hyd at bedair blynedd.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Cymeradwyodd y Bwrdd y blaenoriaethau gweithredol ar gyfer 2019-20
ii. Cymeradwyodd y Bwrdd gynnydd yn nifer y swyddi cymeradwy o 83 i 85.
iii. Yn amodol ar ymrwymiad cyllid gan Lywodraeth Cymru, cymeradwyodd y Bwrdd y gallu i recriwtio 14 o gyflogeion tymor penodol o ganlyniad i'r angen i ddarparu'r cymwysterau newydd sy'n gysylltiedig â diwygio'r cwricwlwm.
iv. Cymeradwyodd y Bwrdd y gyllideb ar gyfer 2019-20
v. Cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Cyllid Tymor Canolig rhwng 2019-20 a 2021-22
vi. Cymeradwyodd y Bwrdd y penderfyniad i ddirprwyo fersiwn derfynol o'r Cynllun Busnes (2019-20) i'r Prif Swyddog Gweithredol.

8. Arolwg Pobl

8.1. Cyflwynodd KW ganlyniadau'r trydydd arolwg staff. Nododd y Bwrdd fod y lefelau ymgysylltu â staff yn gadarnhaol o hyd, sef 72%, ac roedd yn falch o nodi bod mwy o sgoriau cadarnhaol mewn meysydd megis nodau sefydliadol, llesiant personol a chyflog a buddiannau.

8.2. Awgrymodd aelodau'r Bwrdd y byddai'n ddefnyddiol cyflwyno data ar dueddiadau thematig a meincnodau fel rhan o'r arolwg nesaf. Nododd y Bwrdd hefyd fod data ar lefel gyfarwyddiaeth yn bwysig.

8.3. Hysbysodd KW y cyfarfod mai'r camau nesaf oedd i'r Bwrdd Rheoli gytuno ar gamau gweithredu a fyddai'n cael eu monitro drwy'r cynllun gweithredol.

8.4. Ar y cyfan, teimlai'r Bwrdd ei fod yn ganlyniad da ac roedd yn falch o weld bod sawl cam gweithredu a gymerwyd y llynedd wedi bod yn effeithiol.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Nododd y Bwrdd ganlyniadau Arolwg Pobl 2018.

9. Cynllun Iaith Gymraeg

9.1. Cyflwynodd AS y Cynllun Iaith Gymraeg. Hysbysodd Aelodau'r Bwrdd, yn dilyn penderfyniad y Bwrdd i fwrw ymlaen â Chynllun Iaith Gymraeg yn ystod ei gyfarfod ym mis Ionawr 2019, fod Cymwysterau Cymru wedi cael gwybod gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg nad oedd y cynllun yn ofynnol mwyach gan y gellid cymhwyso Safonau'r Gymraeg yn gynt na'r disgwyl. Hysbysodd AS y Bwrdd fod y Bwrdd rheoli wedi adolygu'r newid hwn ac wedi dod i'r casgliad y byddai'n dal i fod yn ddefnyddiol parhau i ddatblygu Cynllun gwirfoddol.

9.2. Cyflwynodd AS y Cynllun Iaith Gymraeg drafft a hysbysodd y Bwrdd fod iddo ffocws corfforaethol ac nad oedd yn gorgyffwrdd â rôl reoleiddiol Cymwysterau Cymru. Hysbysodd AS y Bwrdd fod Polisi Iaith Gymraeg diwygiedig ar gyfer gwaith rheoleiddiol wrthi'n cael ei baratoi, a fyddai'n parhau ar wahân i'r Cynllun. Cadarnhaodd AS fod ATEB (trydydd parti) wedi adolygu'r Cynllun a darparwyd ei sylwadau.

9.3. Croesawodd y Bwrdd yr ymrwymiad i'r Gymraeg, rhoddodd roi sylwadau ar y Cynllun ac roedd yn barod i gymeradwyo'r Cynllun i'w gyhoeddi ar y wefan a'i hyrwyddo'n fewnol, yn amodol ar fân ddiwygiadau.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Iaith Gymraeg i'w gyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru, yn amodol ar fân ddiwygiadau.

10. Polisi Apeliadau Rheoleiddiol

10.1. Ymunodd RH-D â'r cyfarfod a chyflwynodd y Polisi Apeliadau Rheoleiddiol diwygiedig. Esboniodd RH-D y newidiadau a nododd fod cwmpas y Polisi wedi cael ei wneud yn gliriach a'i fod yn adlewyrchu'r bwriadau yn Neddf Cymwysterau Cymru. Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r polisi.

10.2. Rhoddodd y Bwrdd sylwadau ar y polisi ac roedd yn barod i gymeradwyo'r Polisi Apeliadau Rheoleiddiol, yn amodol ar fân ddiwygiadau ym mharagraff 15.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Cymeradwyodd y Bwrdd y Polisi Apeliadau Rheoleiddiol.

11. Cyfres arholiadau'r haf

11.1. Cyflwynodd JR drosolwg o ddull gweithredu Cymwysterau Cymru o ran cyfres arholiadau'r haf. Rhoddodd y cyflwyniad sicrwydd i'r Bwrdd yn y meysydd canlynol:

- Paratoi ar gyfer cyfres arholiadau'r haf;
- Dyddiadau pwysig;
- Risgiau a Materion.

11.2. Trafododd y Bwrdd gynnwys y cyflwyniad a thrafododd y risgiau'n fanwl. Nododd JR y byddai'r Pwyllgor Rheoleiddio a'r Bwrdd yn cael adroddiad manylach yn ystod eu cyfarfod nesaf ym mis Mai 2019.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Nododd y Bwrdd y cyflwyniad ar gyfres arholiadau'r haf.

12. E-Asesu

12.1. Rhoddodd AS y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n mynd rhagddo i ymchwilio i'r cyfleoedd sy'n bodoli ar ran e-asesu. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Cyfarfodydd â Llywodraeth Cymru er mwyn monitro'r gwaith o ddatblygu seilwaith ysgolion;
- Tendr ymchwil er mwyn ystyried newidiadau yn nefnydd cymdeithas o dechnoleg ac felly ddisgwyliadau dysgwyr ar o ran dulliau asesu;
- Y bwriad i gaffael cwmni i hyrwyddo trafodaethau ar gyfleoedd e-asesu;
- Comisiynu Coleg Sir Benfro i nodi astudiaethau achos sy'n amlygu'r cyfleoedd i ddefnyddio technoleg mewn lleoliadau galwedigaethol.

12.2. Awgrymodd AS y dylai Cymwysterau Cymru sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer ei rôl ym maes e-asesu a chyfeiriodd at nifer o gwestiynau a ofynnwyd yn yr adroddiad. Nododd AS fod cyfle i ystyried newid a oedd yn gysylltiedig â diwygio'r cwricwlwm. Argymhellodd AS y byddai'n ddefnyddiol trafod y diwrnod datblygu ym mis Mai 2019 ymhellach.

12.3. Trafododd y Bwrdd gynnwys y cyflwyniad ac awgrymodd y dylid ei drafod ymhellach yn ystod y diwrnod datblygu ym mis Mai 2019, o ystyried pa mor bwysig ydyw.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n mynd rhagddo i ymchwilio i'r cyfleoedd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio mwy o dechnoleg ym maes asesu;
ii. Cytunodd y Bwrdd i drafod y materion ymhellach yn ystod y diwrnod datblygu ym mis Mai.

13. Ymatebion i'r ymgynghoriad: Rôl yr awdurdod cyhoeddi ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru

13.1. Hysbysodd y Cadeirydd y Bwrdd, er nad oedd angen i'r Bwrdd gymeradwyo'r ymgynghoriad, ei fod wedi'i gynnwys ar yr agenda er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r materion, gan y gall fod yn bwysig yn y dyfodol.

13.2. Cafodd y Bwrdd wybodaeth gefndirol am rôl yr awdurdod cyhoeddi ac fe'i hatgoffwyd bod yr ymateb yn debyg i ymateb Cymwysterau Cymru i Ymgynghoriad Technegol AHO, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2018.

13.3. Nododd y Bwrdd yr ymateb i'r ymgynghoriad.

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Nododd y Bwrdd yr ymateb i'r ymgynghoriad, a fyddai'n cael ei anfon i Lywodraeth Cymru ar 29 Mawrth.

14. Rheoli risg

14.1. Cyflwynodd JN yr adroddiad rheoli risg a'r gofrestr risgiau sefydliadol, gan grynhoi'r tair risg newydd a oedd wedi'u hychwanegu a'r newidiadau i'r risgiau yr oedd eu sgôr weddilliol wedi cynyddu. Nid oedd sgôr unrhyw risgiau wedi lleihau, ac nid oedd unrhyw risg wedi'i chau.

14.2. Roedd y risg yr oedd ei sgôr weddilliol wedi cynyddu yn ymwneud â thîm nawdd Llywodraeth Cymru, a'r rheswm dros hynny oedd nad oedd pennaeth parhaol ar yr uned nawdd o hyd. Roedd dwy o'r risgiau newydd a oedd wedi'u hychwanegu yn ymwneud â'r gwaith o ad-drefnu'r sefydliad ac roedd y drydedd risg yn ymwneud â Phrif Swyddog Gweithredol CBAC yn ymddiswyddo. Trafododd y Bwrdd y risgiau a nododd y gofrestr risgiau cyffredinol (corfforaethol a rheoleiddiol).

Crynodeb o'r Argymhellion:

i. Adolygodd y Bwrdd y gofrestr risgiau sefydliadol ddiweddaraf a'i nodi.

15. Adroddiad Pwyllgor Rheoleiddio

15.1. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2019. Roedd

cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr wedi'u cynnwys ym mhecyn y Bwrdd er gwybodaeth.

15.2. Roedd y prif eitemau a drafodwyd gan y Pwyllgor ar 21 Chwefror yn ymwneud â'r Polisi Apeliadau Rheoleiddiol, a ystyriwyd yn gynharach ar agenda'r Bwrdd. Roedd eitemau eraill yn cynnwys cyfres arholiadau'r haf, a drafodwyd fel rhan o agenda'r Bwrdd hefyd, a chanllawiau ar Asesu'r Effaith Rheoleiddiol. Cynhaliodd y Pwyllgor ei archwiliad iechyd blynyddol.

16. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

16.1. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2019. Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref wedi'u cynnwys ym mhecyn y Bwrdd er gwybodaeth.

16.2. Roedd y prif eitemau a drafodwyd gan y Pwyllgor ar 28 Chwefror yn cynnwys archwilio mewnol (rhoddwyd tair gradd sylweddol ar gyfer rheolaethau ariannol, rheoli digwyddiadau a llywodraethu corfforaethol, ac un radd resymol ar gyfer archwiliadau cydnabod cyrff dyfarnu) a'r cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2019-20. Cafodd rheoli risg, caffael, diogelwch gwybodaeth ac eitemau sefydlog eraill eu hystyried hefyd. Cynhaliodd y Pwyllgor ei archwiliad iechyd blynyddol.

17. Y Pwyllgor Adnoddau

17.1. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Mawrth. Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Hydref wedi'u cynnwys ym mhecyn y Bwrdd er gwybodaeth.

17.2. Roedd y prif eitemau a drafodwyd gan y Pwyllgor ar 14 Hydref yn ymwneud â'r cynllun gweithredol ar gyfer 2019-20, staffio a'r gyllideb, a ystyriwyd yn gynharach ar agenda'r Bwrdd. Roedd eitemau eraill yn cynnwys yr arolwg pobl, a drafodwyd hefyd fel rhan o agenda'r Bwrdd, a chymeradwyo'r Polisi Iechyd Meddwl a diwygiadau i'r Polisïau Gweithio Hyblyg ac sy'n Ystyriol o Deuluoedd. Cynhaliodd y Pwyllgor ei archwiliad iechyd blynyddol.

18. Penderfyniadau a wnaed y tu allan i'r pwyllgor

18.1. Cadarnhaodd JN fod un penderfyniad wedi'i wneud y tu allan i'r pwyllgor, sef cymeradwyo'r ymateb i'r ymgynghoriad – Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol. Rhoddodd JN grynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law y tu allan i'r pwyllgor. Nododd y Bwrdd y penderfyniad terfynol yn ffurfiol.

19. Unrhyw fater arall

19.1. Ni chodwyd unrhyw fater arall. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod ac am gyfrannu at y cyfarfod.

16
17
18
19
15.1
15.2
15.3

Daeth y cyfarfod i ben am 15.50.
Diwedd